Ysgol Dewi Sant

Cylchlythyr 31.01.2020

Trip Llaeth y Llan a Llysfasi

Cafodd Blwyddyn 2 drip hwyliog dros ben yn Llaeth y Llan a Llysfasi Ddydd Llun diwethaf.

Tra yn Llaeth y Llan cafwyd gyflwyniad am ddatblygiad y busnes dros y blynyddoedd diwethaf a taith o'r ffatri. Roedd gan y disgyblion nifer o gwestiynau am yr holl beiriannau oedd i'w gweld.

Aeth Mr Arthur Thomas (darlithydd yn Llysfasi) a ni ar daith o amgylch fferm Llysfasi gan esbonio y broses odro yn fanwl. Cawsom weld y gwartheg godro yn y sied, y parlwr odro ac y llouau bach. Roedd pawb wedi gwirioni!

Pwrpas ein trip oedd casglu mwy o wybodaeth i ateb ein cwestiwn mawr; Pa gynnyrch sy'n dod o'n ffermydd?'. Braf oedd cael dilyn y daith o'r parlwr godro i'r ffatri gwneud iogwrt.

Year 2 had a fun-filled trip to Llaeth y Llan and Llysfasi last Monday.
In Llaeth y Llan we enjoyed a presentation about the business growth over the last few years and a tour of the factory. The pupils had many questions about all the machines they saw.
Mr Arthur Thomas (a lecturer in Llysfasi) took us on a tour around Llysfasi farm and explained the dairy process in detail. We were lucky to see the dairy cows in the shed, the milking parlour and the calves.
The purpose of our trip was to gather more information to answer our big question; 'Which produce come from our farms?'. We thoroughly enjoyed following the dairy cycle from the milking parlour to the yogurt factory.















COLEG CAMBRIA LLYSFASI

Band y mis

Candelas

"Llwytha'r Gwn"

"Anifail"



"Rhedeg i Baris"

"Colli Cwsg"

Pwysig / Important

Mi fydd yr ysgol yn cau i'r hanner tymor ar **Ddydd Iau13eg o Chwefror** gan fod y Dydd Gwener yn diwrnod HMS.

The school will be closing for half term on **Thursday February 13th** as the Friday is a teacher training day.

CogUrdd

Cafwyd lawer o hwyl wrth gystadlu ar gyfer y CogUrdd. Mae yna lawer o gogyddion talentog yn Ysgol Dewi Sant, tua 40 ohonynt! Paratowyd cibabs ffrwythau, gyda dip iogwrt a mintys ar ei ben. Roedd pob cystadleuydd yn aeddfed wrth wrando a mynd o gwmpas eu gwaith. Roedd y beirniad yn edrych ar sgiliau hylendid, trefn gweithio a sgiliau cyllell yn ystod y gystadleuaeth. Bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi Ddydd Llun (03.02.2020) yn ystod gwasanaeth Cyfnod Allweddol 2.

We had lots of fun competing for the CogUrdd. There are many talented chefs at Ysgol Dewi Sant, about 40 of them! We prepared fruit kebabs, with a fruit yoghurt dip, topped with mint. All competitors were mature in their conduct while in the kitchen. The judge looked at hygiene, kitchen conduct and knife skills during the competition. The winner will be announced on Monday (03.02.2020) during Key Stage 2's assembly.









CerddAmdani

Ers rhai wythnosau bellach mae'r Cyfnod Sylfaen wedi mwynhau sesiynau canu CerddAmdani gyda Mrs Ruth Owen. Erbyn hyn mae'r disgyblion yn gwybod sut i gynhesu'r corff ac wedi dysgu sut i anadlu yn gywir. Yr wythnos yma dechreuodd Mrs Owen y sesiwn gyda'r gân Morgrug ac mae'r dysgwyr wrth eu bodd gyda'r symudiadau. Dewisodd Mrs Owen ddwy ddisgybl o Blwyddyn 1 i actio Mam yn y gân 'Beth sydd i dê?' roedd hyn yn fodd o ganu ar y ffurf cwestiwn ac ateb. I orffen y sesiwn canwyd y gân llwynog coch sy'n cysgu er mwyn ymlacio y disgyblion cyn mynd yn ôl i'r dosbarth.

For the last few weeks the Foundation Phase has enjoyed singing sessions with Mrs Ruth Owen. Pupils now know how to warm the body and have learned how to breathe correctly whilst singing.

This weeks session started with the song 'Ants,' and the pupils enjoyed learning the moves. Mrs Owen chose two pupils from year 1 to act the part of Mum during the song 'What is for tea? ' This was a question and answer format. To finish the session the pupils sang 'A Red Fox Sleeps' in order to relax. The pupils thoroughly enjoyed the singing

Eisteddfod yr Urdd

Wel, mae'r paratoadau tuag at yr Urdd yn brysur iawn yn yr ysgol. Mae gennym ymarferion parti unsain, ymgom, dawnsio disgo, llefaru, parti cerdd dant, ac unawdau yn gyrru ymlaen. Hefyd, mae yna waith celf ac ymarferion pêl rwyd a phêl droed! Edrychwn ymlaen at groesawu'r Urdd yma yn Sir Ddinbych eleni!!

Well, the Urdd practices are in full swing in the school! We are practicing for solo singing, parti cerdd dant, parti unsain, a dialog piece, disco dancing, reciting, netball, football and art and craft work too! We're looking forward to welcoming the Urdd in Denbighshire this year!



Tip Eco yr wythnos

Eco Tip of the week

Ystyriwch ddefnyddio defnydd lapio cwyr gwenwyn yn lle haenau glynu er mwyn cadw bwyd. Gall gwyr gwenwyn gadw eich bwyd yn ffres mewn ffordd naturiol! Gallwch hefyd eu hailddefnyddio!

Consider using beeswax wraps instead of cling film to keep your food. Beeswax is able to keep your food fresh in a natural way! They are also reusable!

-Oddi wrth y Clwb Eco.

Pwyllgor Apêl Urdd Rhuddlan, Rhyl, Dyserth a Bodelwyddan
2020 Urdd Appeal

Noson gyda CorDydd a Chôr Rhuthun
Arweinydd y noson Nic Parry
Chwefror 1af, 2020



Eisteddfod

Pafiliwn Y Rhyl
7.00 y.h
Tocynnau £20

An evening of music with CorDydd (choir from Cardiff) and Ruthin Choir
Compere Nic Parry
February 1st, 2020
Rhyl Pavilion
7.00 pm
Tickets £20



Am docynnau cysylltwch â / For tickets contact
Arwel Roberts 07813550998
Pafiliwn Y Rhyl, Rhyl Pavilion

Diolch

Diolch yn fawr iawn i Miss Gweno Hughes am ei hamser yma yn dysgu yn y Dosbarth Meithrin dros y tymor a hanner diwethaf. Bydd Mrs Murtha yn dychwelyd yn ôl i'w gwaith Ddydd Llun, 3ydd o Chwefror. Rydym yn edrych ymlaen i'w chroesawu yn ôl!

We would like to thank Miss Gweno Hughes for her work in the Nursery class during the last term and a half. Mrs Murtha will be returning back following after her maternity leave on Monday 3rd February. We look forward to welcoming her back!

Presenoldeb Wythnos Yma / This Weeks Attendance

Meithrin / Nursery	88.8%
Derbyn / Reception	91.1%
Blwyddyn 1 / Year 1	92.4%
Blwyddyn 2 / Year 2	95.3%
Blwyddyn 3 / Year 3	95.6%
Blwyddyn 4 / Year 4	94.8%
Blwyddyn 5 / Year 5	94.3%
Blwyddyn 6 / Year 6	93.5%

Llyfrgell Y Rhyl / Rhyl Library

Mi fydd cyfle i chi dathlu noson llyfr Harry Potter yn llyfrgell Y Rhyl unai Dydd Iau 6ed o Chwefror neu'r 7fed. Mae'n addas ar gyfer plant oed 8+ ac mi fydden nhw yn cynnig gweithgareddau gwahanol yn cynnwys creu hudlath, cwis a helfa trysor.

There will be a chance for you to celebrate Harry Potter Book night at Rhyl Library on either Thursday 6th February or Friday the 7th. It's suitable for children ages 8+ and they will be offering activities such as wand making, a quiz and a treasure hunt. There are limited spaces so if you are interested please let them know and they will book you in.






Dilynwch ni ar Drydar

Follow us on Twitter

@YsgolDewiSant

1,679 o ddilynwyr!

1,679 followers!


DYDD
MIWSIG
CYMRU
07.02.2020